Adran Gwaith
a Phensiynau

Y Pumed Adolygiad o'r Asesiad Gallu i Weithio

Galwad am Dystiolaeth

Mehefin 2014

ISBN 978-1-78425-243-4

Cynnwys

Ynglŷn â'r galwad am dystiolaeth hwn ... 3
Pwrpas a chwmpas y galwad am dystiolaeth hwn ... 3
At bwy yr anelir y galwad am dystiolaeth hwn ... 3
Parhad y galwad am dystiolaeth hwn ... 3
Sut i ymateb ... 3
Fformatau amgen ... 4
Ymholiadau ynglŷn â'r galwad am dystiolaeth ... 4
Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennych ... 4
Rhagair gan Dr. Litchfield ... 6
Cyd-destun ... 7
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ... 7
Yr Asesiad Gallu i Weithio ... 7
Y broses ceisiadau newydd am Asesiad Gallu i Weithio ... 8
Adolygiadau Annibynnol Blaenorol ... 9
Cwestiynau ... 10
Cwestiynau ar gyfer pobl sy'n ymateb fel unigolion ... 10
Cwestiynau ar gyfer pobl sy'n ymateb ar ran elusen, grŵp eiriolaeth, corff cynrychiadol neu sefydliad arall ... 12
Atodiad A: Map cynhwysfawr o'r broses Asesiad Gallu i Weithio – fersiwn testun ... 14

Ynglŷn â'r galwad am dystiolaeth hwn

Pwrpas a chwmpas y galwad am dystiolaeth hwn

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi penodi Dr. Litchfield i gynnal y pumed Adolygiad Annibynnol yr Asesiad Gallu i Weithio (WCA), yn dilyn ei waith ar y bedwerydd Adolygiad Annibynnol. Dyma'r Adolygiad Annibynnol statudol olaf y WCA, yn unol ag adran 10 y Ddeddf Adolygu Lles 2007.

Bydd y galwad am dystiolaeth hwn yn un o nifer o ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth yn ystod yr adolygiad. Caiff tystiolaeth a chyflwynwyd ei ddefnyddio i hysbysu adroddiad Dr. Litchfield i'r Ysgrifennydd Gwladol dros waith a Phensiynau. Gosodir yr adroddiad hwn ger bron y Senedd erbyn diwedd 2014.

Gan fod hwn yn Adolygiad Annibynnol, nid yw'n angenrheidiol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn unrhyw neu'r holl awgrymiadau, ac unrhyw awgrymiadau a all fod yn destun i asesiad pellach gan DWP.

Mae'r galwad am dystiolaeth hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban. Bydd galwad am dystiolaeth wahanol yn cael ei gynnal ar gyfer Gogledd Iwerddon.

At bwy yr anelir y galwad am dystiolaeth hwn

Anelir y galwad am dystiolaeth hwn at rheiny sydd â gwybodaeth sy'n berthnasol i sut y mae'r WCA yn cael ei weithredu ac unrhyw newidiadau pellach y gallai fod angen i wella'r broses. Fel gyda'r galwad am dystiolaeth y llynedd, mae gan Dr. Litchfield diddordeb mewn derbyn gwybodaeth o'r fath gan unigolion a sefydliadau.

Parhad y galwad am dystiolaeth hwn

Bydd y galwad am dystiolaeth hwn yn dechrau ar 10fed Mehefin 2014 ac yn rhedeg hyd at 15fed Awst 2014.

Sut i ymateb

Cwblhewch y ffurflen ar-lein. Y ffurflen ar-lein yw 'r dull a ffefrir ar gyfer ymateb.

Os nad ydych yn gallu defnyddio'r ffurflen ar-lein, defnyddiwch un o'r dulliau canlynol:

E-bost - wca.evidence@dwp.gsi.gov.uk neu

Post - WCA Independent Review Team, 3rd Floor, Caxton House, Tothill Street, London, SW1H 9NA

Sicrhewch fod eich ymateb yn cyrraedd erbyn 15fed Awst 2014.

Wrth ymateb, nodwch eich bod yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, gwnewch yn glir pwy y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle y bo'n berthnasol, sut y casglwyd barn yr aelodau.

Byddwn yn cydnabod pob ymateb.

Fformatau amgen

Mae'r wybodaeth a chynhwyswyd yma ar gael mewn ystod o fformatau amgen. Bydd dogfennau Print bras, Hawdd i'w Ddarllen, clywedol a BSL ar gael ar-lein. Yn ogystal, gellir darparu fersiynau print bras, Hawdd i'w Ddarllen, Braille, casetiau sain a chryno ddisgiau, a DVDau BSL mewn copi caled.

Nodwch y gall fformatau amgen cymryd mwy o amser i'w paratoi, felly rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os bydd angen hwy arnoch.

I gael y fformatau hyn, cysylltwch â:

E-bost - wca.evidence@dwp.gsi.gov.uk <mailto:wca.evidence@dwp.gsi.gov.uk> neu

Post – WCA Independent Review Team, 3rd Floor, Caxton House, Tothill Street, London, SW1H 9NA

Ymholiadau ynglŷn â'r galwad am dystiolaeth

Os oes gennych ragor o ymholiadau am y galwad am dystiolaeth hwn, cysylltwch â:

E-bost - wca.evidence@dwp.gsi.gov.uk <mailto:wca.evidence@dwp.gsi.gov.uk> neu

Post – WCA Independent Review Team, 3rd Floor, Caxton House, Tothill Street, London, SW1H 9NA

Ffôn – 02072453746

Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennych

Rhyddid gwybodaeth

Efallai y bydd yr holl wybodaeth a gynhwysir yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ddatgeliad os gofynnir amdano o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Drwy ddarparu gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus, deallir eich bod yn caniatáu i'r wybodaeth cael ei datgelu a'i chyhoeddi. Os nad dyma'r achos, dylech gyfyngu unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir neu ddileu'n llwyr. Os ydych am i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r alwad am dystiolaeth i fod yn gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, ond ni allwn warantu i wneud hyn.

I gael mwy o wybodaeth am yr egwyddorion cyffredinol am Ryddid Gwybodaeth a sut y caiff eu cymhwyso o fewn DWP, cysylltwch â:

E-bost – Freedom-of-information-request@dwp.gsi.gov.uk

Post – Central Freedom of Information Team, 4th Floor, Caxton House, Tothill Street, London, SW1H 9DA

Ni all y Tîm Gwybodaeth Rhyddid Canolog cynghori ar ymarferion ymgynghori neu alwadau am wybodaeth benodol, ond gall rhoi cymorth gyda materion Rhyddid Gwybodaeth. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn:

www.gov.uk/make-a-freedom-of-information-request/the-freedom-of-information-act.

Rhagair gan Dr. Litchfield

Yn dilyn cyhoeddiad fy adolygiad blaenorol yr Asesiad gallu i Weithio (WCA), gofynnwyd i mi gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Pobl Anabl i gynnal pumed adolygiad y WCA. Dyma'r Adolygiad Annibynnol statudol olaf ac mae'n adeiladu nid yn unig ar fy ngwaith yn y bedwerydd adolygiad, ond ar waith gwerthfawr Yr Athro Malcolm Harrington yn y tri adolygiad cyntaf. Gobeithiaf yn yr adolygiad hwn i barhau â'r broses o wella'r Asesiad Gallu i Weithio.

Bydd yr alwad am dystiolaeth hwn yn fy ngalluogi i gasglu gwybodaeth bellach i ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y pumed Adolygiad Annibynnol y WCA. Mae'r cwestiynau a gofynnir gan y rhai sy'n ateb fel unigolion yn canolbwyntio ar brofiadau'r broses WCA. Mae'r cwestiynau a gofynnir gan y rhai sy'n ymateb ar ran sefydliadau wedi cael eu dosbarthu o dan y penawdau canlynol:

- effaith yr Adolygiadau Annibynnol blaenorol;
- profiad o'r broses WCA;
- y Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith neu'r Grŵp Cymorth; a
- chyflyrau Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu.

Fel y llynedd, mae gennyf ddiddordeb mewn data gwrthrychol sy'n tanategu unrhyw farn a mynegir.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich mewnbwn fel cyfraniad i'r adolygiad a datblygiad parhaus yr asesiad gallu i weithio, sy'n effeithio ar gymaint o fywydau.

Dr Paul Litchfield OBE OStJ FRCP FFOM

Cyd-destun

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Cyflwynwyd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) ym mis Hydref 2008. Gwnaeth ddisodli Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm oherwydd anabledd a Lwfans Anabledd Difrifol - i'r rhai sy'n gwneud cais newydd am gymorth ariannol ar sail salwch neu analluogrwydd. Bwriedir ESA ar gyfer pobl sydd â gallu cyfyngedig i weithio (sy'n cael ei gosod yn y Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith), a'r rhai na allwn ddychwelyd i'r gwaith yn y tymor byr (sy'n cael ei gosod yn y Grŵp Cymorth).

Am y rheswm hwn, mae yna ddau grŵp y gellir gosod y rhai sy'n gymwys i gael ESA ynddi. Mae disgwyliadau'r bobl a osodwyd yn y ddau grŵp yn wahanol, er mwyn adlewyrchu natur y ddau grŵp. Disgwylir i'r rhai a osodwyd yn y Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith (WRAG) i ymgymryd â gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith rhesymol. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn barod i ailddechrau gweithio pan fyddant yn ddigon iach i wneud hynny. Nid yw'n amod i gael budd-dal eu bod yn chwilio am neu ddechrau gwaith, er bod cymorth ar gael os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ni ddisgwylir i'r rhai a osodwyd yn y Grŵp Cymorth i ymgymryd â gwaith neu unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith, er bod ganddynt fynediad i'r fath cymorth pe baent yn gofyn amdano.

Mae'r Asesiad gallu i Weithio (WCA) yn penderfynu os oes gan berson sy'n gwneud cais am ESA gallu cyfyngedig i weithio neu beidio. Gall pobl sydd â gallu cyfyngedig i weithio fod yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith, sydd y budd-dal a delir i'r rhai sy'n gallu gweithio ac sy'n wrthi'n chwilio am waith.

Yr Asesiad Gallu i Weithio

Gwnaeth yr Asesiad Gallu i Weithio (WCA) ddisodli'r Asesiad Gallu Personol a ddefnyddiwyd i asesu pobl a oedd yn hawlio Budd-daliadau Analluogrwydd. Bwriedir iddo fod yn asesiad iechyd swyddogaethol yn hytrach nag asesiad meddygol diagnostig, a fydd eisoes wedi cael ei gymryd drwy Ymarferydd Cyffredinol neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd yr hawlydd. Mae canolbwynt y WCA ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, ac mae'n seiliedig ar gorff cynyddol o dystiolaeth sy'n cysylltu iechyd da a lles i'r gwaith.

Gwnaeth y Ddeddf Diwygio Lles 2007 deddfu ar gyfer cyflwyno'r WCA. Mae'r gyfraith hon yn darparu'r sail ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol, y mae'r alwad am dystiolaeth hwn yn rhan allweddol. Mae adran 10 yn nodi:

> "Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau yn gosod gerbron y Senedd adroddiad annibynnol ar weithrediad yr asesiad bob blwyddyn am y pum mlynedd gyntaf ar ôl i'r adrannau hynny dod i rym."

Y broses ceisiadau newydd am Asesiad Gallu i Weithio

Mae pobl sydd am hawlio ESA yn cysylltu â DWP i ddechrau'r broses hon. Gofynnir iddynt gwblhau holiadur cychwynnol, a elwir yn ESA50W, sy'n gofyn am ragor o wybodaeth am eu cyflwr neu anabledd. Yn y ffurflen hon gofynnir hefyd i'r person i gyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol sydd ganddynt.

Tua 13 wythnos ar ôl eu cais cychwynnol bydd y rhan fwyaf o bobl yn mynychu asesiad wyneb yn wyneb gydag Atos Healthcare. Trosglwyddwyd y wybodaeth a gasglwyd yn yr asesiad wyneb yn wyneb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y person sy'n hawlio, i Swyddog Penderfyniadau DWP. Bydd y Swyddog Penderfyniadau yn sgorio'r wybodaeth am allu ymarferol y person yn erbyn y disgrifyddion a phenderfynu ym mha grŵp y dylent gael eu gosod.



Mae'r map uchod yn fap cynhwysfawr am y broses WCA. Mae'n adlewyrchu newidiadau i'r broses o ganlyniad i Adolygiadau Annibynnol blaenorol, a newidiadau i'r broses a gyflwynwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyflwynwyd newid y llynedd i'r broses o ganlyniad i adolygiad blaenorol; roedd y newid yn gysylltiedig â'r galwad sicrwydd penderfyniad. Nawr mae person ond yn cael galwad ffôn ynglŷn â'u penderfyniad WCA os yw'n debygol na fydd ganddynt allu cyfyngedig i weithio. Newid a gyflwynwyd nid oedd yn dod o adolygiadau blaenorol yw'r broses ailystyriaeth orfodol cyn apelio. Ailystyriaeth orfodol yw'r broses lle os nad yw person

yn fodlon â'u penderfyniad WCA ac maent angen iddo gael ei diwygio edrychir ar eu hachos gan swyddog penderfyniadau nad oedd wedi gwneud y penderfyniad cyntaf. Os nad yw person yn fodlon â chanlyniad yr ailystyriaeth orfodol, dim ond wedyn y gallent apelio yn erbyn y penderfyniad.

Gellir dod o hyd i fersiwn testun o'r map uchod yn **Atodiad A** ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y mae'r WCA yn gweithio a chamau'r broses WCA ar gael yn: http://www.dwp.gov.uk/docs/esa-stakeholder-information-pack.pdf.

Adolygiadau Annibynnol Blaenorol

Cafodd y tri adolygiad cyntaf y WCA ei gyflwyno gan Yr Athro Malcolm Harrington.

Canfuwyd yr **adolygiad cyntaf** a gyhoeddwyd ar 23 Tachwedd 2010, er nad oedd y system wedi torri neu y tu hwnt i atgyweirio, nad oedd yn gweithio cystal ag y dylai. Gwnaeth yr adolygiad nifer o argymhellion i wella tegwch ac effeithiolrwydd y system. Gwnaeth **ymateb y Llywodraeth** dderbyn mwyafrif o argymhellion yr adolygiad.

Cydnabuwyd **yr ail adolygiad** a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2011 bod y WCA yn parhau i fod y broses gywir, a bod yr Adran wedi mabwysiadu neu roeddent yn mabwysiadu'r holl argymhellion yr adroddiad cyntaf. Pwysleisiodd Yr Athro Harrington bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud a'i fod yn disgwyl i hyn gael ei gyfuno dros y flwyddyn nesaf. Gwnaeth yr ail adolygiad cyfres o argymhellion pellach. Gwnaeth **dderbyn** mwyafrif yr argymhellion hyn.

Canfuwyd y **trydydd adolygiad** a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2012 bod cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud, ac er gwaethaf bod llawer o bobl yn galw am gael gwared ar y WCA, ni welodd yr Adolygiad unrhyw dystiolaeth yn awgrymu y dylai hyn ddigwydd. Gwnaeth **ymateb y Llywodraeth** dderbyn y mwyafrif o argymhellion Yr Athro.

Cyhoeddwyd y **pedwerydd adolygiad**, a gynhaliwyd gan Dr Litchfield, ar 12 Rhagfyr. 2013. Canfuwyd bod yr Adran yn gyffredinol wedi gwneud cynydd da o ran gweithredu'r argymhellion blaenorol, ond roedd nifer o adrannau y gellid dal gwneud gwelliannau. Roedd llawer ohonynt yn canolbwyntio ar wella'r broses o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer y person sy'n hawlio ESA ar broses gwneud penderfyniadau ei hun. Eto, gwnaeth **ymateb y Llywodraeth** dderbyn y mwyafrif o argymhellion Dr. Litchfield, er y derbyniwyd llawer ohonynt gyda rhybuddion penodol.

Cwestiynau

Mae’r alwad am dystiolaeth hwn yn berthnasol i’r pumed ac Adolygiad Annibynnol statudol olaf yr Asesiad Gallu i Weithio. Fel y cyfryw, bydd yr alwad am dystiolaeth y flwyddyn hon yn adlewyrchu ar esblygiad y WCA dros amser ac yn chwilio am dystiolaeth ar y broses WCA cyffredinol.

Fel y llynedd, rydym yn gwahodd unigolion a sefydliadau i gyflwyno tystiolaeth i’n helpu asesu sut mae’r WCA yn gweithredu drwy ateb y cwestiynau canlynol. Mae dwy set o gwestiynau, yn dibynnu ar p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu fel sefydliad.

Cwestiynau ar gyfer pobl sy’n ymateb fel unigolion

Amdanoch chi

1. Beth yw eich profiad chi o’r Asesiad Gallu i Weithio (WCA)?
   a. Rwyf wedi gwneud cais am ESA fy hun
   b. Mae gennyf ffrind neu aelod o’r teulu sydd wedi gwneud cais am ESA
   c. Rwy’n aelod o’r staff sy’n gweithio o fewn cyflenwi’r WCA
   d. Rwy’n gweithio gyda phobl sy’n cael ei effeithio gan y WCA
   e. Arall

2. Os ydych wedi gwneud cais am ESA, beth oedd eich oed ar adeg eich asesiad? (Os ydych wedi cefnogi rhywun drwy’r asesiad, rhowch eu hoedran, ac os ydych yn aelod o’r staff rhowch eich oed).
   a. O dan 18
   b. 18 – 24
   c. 25 – 34
   d. 35 – 44
   e. 45 – 49
   f. 50 – 54
   g. 55+

3. Yn seiliedig ar eich profiad, ydych chi’n teimlo bod pobl sydd yn mynd drwy’r WCA yn cael y wybodaeth angenrheidiol er mwyn deall beth a ddisgwylir ganddynt a sut y mae'r broses yn gweithio? Os na, rhowch manylion pa wybodaeth ychwanegol y byddai'n ddefnyddiol a pam y credwch y byddai hyn yn ddefnyddiol.

4. O'r amser y mae person yn gwneud cais am ESA i’r amser pan fyddant yn derbyn penderfyniad o DWP, mae’r person hwnnw yn y 'cyfnod asesu' o’u cais. Mae'r cwestiwn hwn yn berthnasol i bobl â phrofiad yn gysylltiedig â

symud o ‘cam asesu’ y budd-dal i naill ai'r Grŵp Gweithgaredd sy’n Gysylltiedig â Gwaith (WRAG) neu i Lwfans Ceisio Gwaith:

Beth yn eich barn chi fyddai’n ddefnyddiol i baratoi a chynorthwyo pobl sy'n symud o'r 'cyfnod asesu' i’r WRAG neu i Lwfans Ceisio Gwaith?

5. Ydych chi, neu rywun rydych yn ei gefnogi, wedi bod drwy'r broses ailystyriaeth orfodol ar ôl derbyn penderfyniad WCA? Os felly, beth oedd eich profiad o’r broses?

6. Gan feddwl am y broses WCA o pan fydd rhywun yn gwneud cais i pan fyddant yn derbyn yr hysbysiad penderfyniad terfynol gan DWP, a oes adrannau lle nad yw'r WCA yn gweithio’n dda a/neu y gellid ei wella? Os felly, rhowch fanylion y gwelliannau y byddech yn eu gwneud a sut y byddant yn helpu.

7. Oes unrhyw adrannau lle mae'r broses WCA yn gweithio'n dda? Os felly, sut y gallwn adeiladu ar rain i wella profiad y bobl sy'n mynd drwy'r broses WCA?

8. Os oes gennych chi neu rywun rydych yn ei gefnogi/chefnogi cyflwr Iechyd Meddwl difrifol a pharhaus neu Anawsterau Dysgu difrifol ac wedi bod drwy’r broses WCA:

    a. a oes adrannau o’r broses WCA y teimlwch sy’n arbennig o anodd i'w llywio? Rhowch fanylion ar sut y gellid gwella hyn.

    b. a oes adrannau o’r broses WCA y teimlwch sy’n cefnogi pobl yn dda? Rhowch fanylion o’r maes arbennig hwn a pham y mae’n gweithio’n dda.

Cwestiynau ar gyfer pobl sy’n ymateb ar ran elusen, grŵp eiriolaeth, corff cynrychiadol neu sefydliad arall

Yr effaith gan Adolygiadau Annibynnol blaenorol

9 Dros gwrs y pedwar adolygiad annibynnol olaf, mae nifer o argymhellion wedi eu gwneud a’u gweithredu. Sut mae’r newidiadau hyn wedi newid profiad y bobl sy’n mynd drwy’r WCA? Rhowch dystiolaeth ategol.

Profiad o’r broses WCA

10. Yn y pedwerydd adolygiad annibynnol gwnaeth Dr Litchfield argymell y dylid adolygu'r ESA50W a dylid adolygu'r holl lythyrau a ffurflenni i wella sut y mae DWP yn cyfathrebu â'r bobl sy'n cael WCA. A oes unrhyw adrannau penodol eraill i'w gwella yn y ffordd y mae’r WCA yn cyfathrebu gyda phobl? Rhowch fanylion o adrannau penodol ar gyfer eu gwella.

11. Ar adegau penodol o'r broses WCA, rhaid i berson naill ai cymryd camau i fwrw ymlaen â'u cais neu mae’r disgwyliadau a osodwyd arnynt yn newid. Er enghraifft:

    - mae angen gweithredu os yw'r person yn dymuno cael ailystyriaeth orfodol; a
    - mae disgwyliadau yn newid pan fydd person yn cael ei osod yn y Grŵp Gweithgaredd sy’n Gysylltiedig â Gwaith (WRAG) a disgwylir iddynt ymgymryd â gweithgaredd sy’n gysylltiedig â gwaith.

    A yw'r wybodaeth a ddarperir ar hyn o bryd i esbonio'r broses neu ddisgwyliadau’r person sy’n cael WCA yn ddigonol? Os na, dylech ystyried pa wybodaeth bellach fyddai'n ddefnyddiol a pham, a phwy y byddai'n elwa ohono, a darparu tystiolaeth ategol.

12. Ym mis Hydref 2013, cyflwynwyd 'ailystyriaeth orfodol' ar gyfer nifer o fudd-daliadau lles. Gan ganolbwyntio ar y broses ailystyriaeth orfodol ar gyfer penderfyniadau WCA, sut ydych yn teimlo bod y broses hon yn gweithio? Rhowch fanylion yr adrannau sy'n gweithio neu ddim yn gweithio'n dda, a darparu tystiolaeth ategol.

13. Gan feddwl am y broses WCA yn gyffredinol o pan fydd rhywun yn gwneud cais i pan maent yn derbyn yr hysbysiad penderfyniad terfynol gan DWP, a oes adrannau lle nad yw'r WCA yn gweithio'n dda a/neu y gellir ei wella? Os felly, rhowch fanylion y gwelliannau yr hoffech eu gwneud, a darparu tystiolaeth ategol.

14. A oes adrannau lle mae'r broses WCA yn gweithio'n dda? Sut y gallai adeiladu ar rain i wella profiad y bobl sy'n mynd drwy'r broses? Esboniwch yr effaith y byddech yn rhagweld y bydd hyn yn ei gael, a darparu tystiolaeth ategol.

Y Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith (WRAG) a'r Grŵp Cymorth

15. Mae gan Lwfans Cyflogaeth a Chymorth dau grŵp y gellir gosod pobl yn dilyn y broses WCA; y WRAG neu'r grŵp cymorth. A ydych yn teimlo bod y WCA yn effeithiol wrth osod pobl yn gywir naill ai yn y WRAG neu'r grŵp cymorth? Os na, rhowch fanylion yr adrannau sydd ag anhawster a darparu tystiolaeth ategol.

Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu

16. Mae'r WCA yn ceisio gwahaniaethu rhwng nam cymedrol neu ddifrifol gallu person ar gyfer gwaith, sy'n deillio o gyflwr iechyd neu anabledd. Ar gyfer y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus neu Anawsterau Dysgu difrifol:

    a. pa enghreifftiau y gallwch ei roi o'r gwahaniaethu hwn ddim sy'n gweithio'n dda? Rhowch fanylion adrannau'r WCA sy'n cyfrannu at hyn a darparu tystiolaeth ategol.

    b. pa enghreifftiau y gallwch ei roi o'r gwahaniaethu hwn sy'n gweithio'n dda? Rhowch fanylion adrannau'r WCA sy'n cyfrannu at hyn a darparu tystiolaeth ategol.

17. Ar gyfer pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl mwy difrifol a pharhaus neu Anawsterau Dysgu mwy difrifol:

    a. a oes adrannau o'r broses WCA y teimlwch sy'n arbennig o anodd i'w llywio? Rhowch fanylion o sut y gellid gwella hyn, ac unrhyw dystiolaeth ategol a fyddai hyn yn effeithiol.

    b. a oes adrannau o'r broses WCA y teimlwch sy'n cefnogi pobl yn dda? Rhowch dystiolaeth ategol.

Atodiad A: Map cynhwysfawr o'r broses Asesiad Gallu i Weithio – fersiwn testun

- Rwy'n ffonio'r Ganolfan Byd Gwaith i hawlio ESA. Maent yn cymryd gwybodaeth i gwblhau fy nghais ac yn esbonio beth fydd yn digwydd nesaf.
- Cyfnod asesu ESA. Rwy'n cael fy nhaliad cyntaf.
- Rwy'n derbyn llythyr yn dweud wrthyf beth fydd yn digwydd nesaf, yn esbonio'r pwysigrwydd o gwblhau'r holiadur ESA50W a mynychu'r apwyntiad WCA, a darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol.
- Rwy'n derbyn holiadur Gallu Cyfyngedig i Weithio (ESA50W) i'w gwblhau.
- (Nid oes angen asesiad wyneb yn wyneb os gellir gwneud argymhelliad o'r dystiolaeth ar bapur).
- Rwy'n mynychu'r Ganolfan Asesu ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb gydag Atos Healthcare.
- Mae Atos Healthcare yn gwneud argymhelliad ar y prognosis i DWP.
- Mae swyddog penderfyniadau DWP yn gwneud penderfyniad ar yr hawl i gael ESA.

Cais wedi'i ganiatáu a chael ei osod yn y Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith (WRAG)

- Rwy'n derbyn llythyr yn dweud wrthyf am fy nyfarniad budd-dal.
- (Gall hawlwyr a osodwyd yn y WRAG gofyn am ailystyriaeth orfodol (mae hwn yn newid i'r broses), a gallant yna apelio).
- Mae'r Ganolfan Gwaith yn cysylltu â mi i drefnu Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith (WFI).
- Y dyddiad cyn fy WFI neu ar ddiwrnod fy WFI, bydd fy Ymgynghorydd Personol ESA yn cysylltu â mi i'm hatgoffa am amser a phwysigrwydd fy WFI, ac yn esbonio beth fydd yn digwydd. (Mae hwn yn newid i'r broses).
- Rwy'n mynychu fy WFI.
- Rwy'n cael cefnogaeth gan y Ganolfan Byd Gwaith.

Neu

- Rwy'n derbyn llythyr yn dweud wrthyf am fy nyfarniad budd-dal.

- (Gall hawlwyr a osodwyd yn y WRAG gofyn am ailystyriaeth orfodol (mae hwn yn newid i'r broses), a gallant yna apelio).
- Mae'r Ganolfan Gwaith yn cysylltu â mi i drefnu Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith (WFI).
- Rwy'n cysylltu â DWP i ddadlau'r penderfyniad. (Mae hwn yn newid i'r broses.)
- Y dyddiad cyn fy WFI neu ar ddiwrnod fy WFI, bydd fy Ymgynghorydd Personol ESA yn cysylltu â mi i'm hatgoffa am amser a phwysigrwydd fy WFI, ac yn esbonio beth fydd yn digwydd. (Mae hwn yn newid i'r broses).
- Rwy'n mynychu fy WFI.
- Rwy'n derbyn galwad ffôn Ailystyriaeth Allanol gan DWP i gadarnhau unrhyw bwyntiau llosg ac i ganfod a oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol neu beidio i'w hystyried. (Mae hwn yn newid i'r broses.)
- Os wyf dal yn anfodlon gyda'r penderfyniad yn dilyn yr ailystyriaeth orfodol, gallaf gyflwyno Apêl i'r Gwasanaeth Tribiwnlys.

Cais wedi'i ganiatáu a chael ei osod yn y Grŵp Cymorth

- Os wyf yn y Grŵp Cymorth, gallaf wirfoddoli am gymorth yn ôl i waith ar unrhyw adeg.

Cais wedi'i wahardd

- Mae'r Swyddog Penderfyniadau yn ffonio i drafod y penderfyniad/hawl i ESA. Gallaf drafod rhesymau ar gyfer y penderfyniad a darparu tystiolaeth ychwanegol er mwyn i'r Swyddog Penderfyniadau ei hystyried. Fe'm cynghorir am fy opsiynau, os wyf yn dymuno gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith fe'm trosglwyddir i rywun sy'n cymryd manylion fy nghais. Fe'm cynghorir hefyd o'r broses ailystyriaeth orfodol.
- Rwy'n derbyn llythyr yn dweud wrthyf am fy ngwaharddiad, yn rhoi'r rhesymau dros y penderfyniad a manylion y broses ailystyriaeth orfodol.
- (Cyn i mi fynychu'r Cyfweliad Ceisiwr Gwaith Newydd yn y Ganolfan Gwaith, bydd y Templed Gwahardd Canlyniad WCA sy'n esbonio'r rhesymau dros wahardd fy ESA, yn cael ei rhannu gyda'r Ymgynghorydd JSA.) (Mae hwn yn newid i'r broses.)
- Rwy'n cysylltu â DWP i ddadlau'r penderfyniad. (Mae hwn yn newid i'r broses.)
- Rwy'n derbyn galwad ffôn Ailystyriaeth Allanol gan DWP i gadarnhau unrhyw bwyntiau llosg ac i ganfod a oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol neu beidio i'w hystyried. (Mae hwn yn newid i'r broses.)
- Os wyf dal yn anfodlon gyda'r penderfyniad yn dilyn yr ailystyriaeth orfodol, gallaf gyflwyno Apêl i'r Gwasanaeth Tribiwnlys.